

<p>Ein rôl fel Cyflogwr: Ni yw cyflogwr mwyaf y sir ac mae ein gweithlu'n cynnwys dros 8,000 o bobl (gan gynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgolion). Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yn ein gweithlu ac rydym yn dymuno bod yn enghraifft o arfer da i gyflogwyr eraill.</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Denu a chadw'r gweithlu gorau oll</p>		
Cam Gweithredu	Statws	Diweddariad
<p>Denu a chadw talent trwy fynd ati i annog ymgeiswyr a gweithwyr o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt i ymgeisio am swyddi a chyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfaedd o fewn ein sefydliad.</p>	<p>Proses mewn lle ac yn cael ei gefnogi gan Rheoli Pobl</p>	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys is-bennawd camau cadarnhaol ym mhob hysbyseb recriwtio, ac os nad oes cynrychiolaeth ddigonol mewn swydd mae'n annog ymgeiswyr i wneud cais. Caiff yr holl hysbysebion allanol eu cyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol hygyrch a gall ymgeiswyr wneud cais ar-lein neu gallant ofyn am gael cyflwyno copi caled os oes angen. Rhoddir hysbysebion cyfeirio yn y wasg arbenigol neu tynnir sylw atynt mewn digwyddiadau recriwtio er mwyn denu ymgeiswyr. Fel cyflogwr sydd â hyder mewn pobl anabl rydym wedi ymrwymo i gefnogi ymgeiswyr ag anableddau drwy'r broses recriwtio.</p>
<p>Adolygu ein hyfforddiant recriwtio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rheolwyr recriwtio a staff cymorth sy'n rhan o'r broses recriwtio yn deall ein gweithdrefnau corfforaethol ac yn cymhwyso tegwch a chydaddoldeb ym mhob cam o'r broses</p>	<p>Cwblhawyd ac mae'r hyfforddiant ar waith</p>	<p>Darperir hyfforddiant yn fisol. Diweddarwyd y modiwl e-ddysgu yn ddiweddar fel pwynt cyfeirio i reolwyr ar broses / cydraddoldeb.</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

<p>Datblygu datganiad ymddygiad trosfwaol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd newydd, i sicrhau bod gweithwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall y Ddyletswydd Gydraddoldeb a sut mae'n ymwneud â'u rôl yn ein sefydliad</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Ar waith</p>	<p>Aethpwyd ati i ymchwilio ac ymgynghori i ddatblygu set o ymddygiadau craidd i gefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth a thanategu Gwerthoedd Craidd diwygiedig y Cyngor.</p> <p>Derbyniodd y Tîm Rheoli Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ac roeddent yn gefnogol i'r ymddygiadau craidd, gan fynnu eu bod yn cael eu datblygu a'u hintegreiddio fel rhan o'r Strategaeth Pobl.</p> <p>Gwnaethpwyd gwaith pellach i gymhwysu'r ymddygiadau trwy ymyriadau dysgu a datblygu ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r model.</p> <p>Bydd Grŵp y Strategaeth Pobl, sef y ffrwd waith 'Arweiniol', yn cefnogi'r gwaith hwn, yn sicrhau ei fod yn parhau i ymwneud â'r gwaith ac yn monitro ei gynnydd fel rhan o'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Strategaeth Pobl.</p>
<p>Datblygu modiwl Croeso Corfforaethol ar-lein ac adolygu gweithdrefnau sefydlu adrannol i sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu croesawu ac yn deall eu cyfrifoldebau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwerthoedd craidd a safonau ymddygiadol</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Mae modiwl Croeso ar-lein newydd ar gael ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w integreiddio i'r broses recriwtio. Mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am ymchwil a datblygu a safonau ymddygiadol. Mae'r Gwerthoedd Craidd yn rhan allweddol o'r modiwl, gan gynnwys staff sy'n siarad am yr hyn y mae'r gwerthoedd yn ei olygu iddyn nhw.</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

<p>Datblygu polisiau cyflogaeth a hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi ein gweithwyr trwy gyfnodau o newid sefydliadol, heriau'n ymwneud â gwaith neu heriau personol e.e. rheoli straen, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, cymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu polisi ailstrwythuro i gynghori a chynorthwyo rheolwyr ynglŷn â phroses glir a thryloyw o reoli newid sefydliadol ac o gefnogi gweithwyr drwy'r broses ailstrwythuro.</p>
<p>Darparu fframwaith er mwyn i reolwyr ddatblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol i gefnogi presenoldeb rheolaidd, cynghori rheolwyr a monitro cysondeb, e.e. addasiadau rhesymol ar gyfer anabledd, gweithio hyblyg er mwyn cyflawni cyfrifoldebau gofalu, amser o'r gwaith ar gyfer defodau crefyddol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Polisiau'n cael eu monitro a'u diweddarau fel rhan o raglen barhaus</p>	<p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin fframwaith bolisi Adnoddau Dynol eang ar waith i gefnogi a chynghori rheolwyr a gweithwyr gan gynnwys polisi Absenoldeb Salwch, canllawiau Gwybodaeth ynghylch Anabledd ac Addasiadau Rhesymol, polisi Gweithio Hyblyg, polisi Amser o'r Gwaith, polisi Seibiant Gyrfa, canllaw Cefnogi Staff LGBT yn y Gweithle, canllaw Cefnogi Pobl sy'n Dychwelyd o Gyfnod Mamolaeth/Mabwysiadu, canllaw Crefydd a Chredoau, canllaw Safonau Ymddygiad yn y Gweithle</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

Datblygu rhaglen integredig o ddatblygu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr	Ar waith	<p>Mae'r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun / Strategaeth Iaith Gymraeg a rannwyd yn dri maes:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cefnogi'r gwaith o recriwtio staff newydd• Datblygu'r gweithlu presennol• Sefydlu'r iaith yn y diwylliant sefydliadol <p>Mae dogfennau/gwybodaeth allweddol ar gael gan gynnwys 1) Cytundeb Dysgu Cymraeg i gyrraedd y lefel ddymunol ar gyfer swydd y gweithiwr. 2) Canllaw i grynhoi'r gwahanol lwybrau a dulliau sydd ar gael er mwyn cyrraedd amrywiol lefelau. 3) Diweddarau'r Dudalen We Dysgu a Datblygu ar gyfer y Gymraeg. 4) Creu posteri marchnata ar gyfer y cwrs ar-lein 10 awr o hyd, a Chymraeg i bawb.</p> <p>Wedi dechrau dadansoddiad o broffil sgiliau gyda'r ymyriadau priodol a'r cymorth corfforaethol i gael gweithwyr o Lefel 0 i Lefel 1 trwy ddysgu ar-lein a dulliau dysgu eraill</p>
---	----------	--

<p>Ein rôl fel Cyflogwr: Ni yw cyflogwr mwyaf y sir ac mae ein gweithlu'n cynnwys dros 8,000 o bobl (gan gynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgolion). Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yn ein gweithlu ac rydym yn dymuno bod yn enghraifft o arfer da i gyflogwyr eraill.</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Byddwn ni'n gweithio i wella'r data monitro cyflogaeth a gedwir gan yr Awdurdod Lleol a sicrhau bod gwahaniaethau mewn cyflog yn cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy</p>		
Cam Gweithredu	Statws	Statws a diweddariad
<p>Cynnal ein hymgyrch wedi'i thargedu i annog gweithwyr i ddatgan gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn wirfoddol i leihau bylchau data a chael gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad ein gweithlu</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i annog ymgeiswyr a gaiff eu recriwtio drwy'r broses recriwtio, a gweithwyr drwy ddefnyddio'r cyfleuster hunanwasanaeth Resource Link, i ddatgan gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn wirfoddol. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio Adroddiad Gwybodaeth Blynyddol y Gweithlu ac Adroddiadau Corfforaethol/Adrannol y Gweithlu i lywio prosesau cynllunio Adrannol y gweithlu.</p>
<p>Cefnogi'r gwaith o ddarparu data'r gweithlu i ysgolion i alluogi pob un ohonynt i gyflawni ei chyfrifoldeb statudol am roi adroddiadau strategol blynyddol ar gydraddoldeb.</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i ymateb i geisiadau gan ysgolion am ddata cyflogaeth a chydraddoldeb, sy'n ymwneud â gweithwyr a gyflogir yn lleol gan yr ysgol dan sylw, i lywio'r gwaith o gynllunio gweithlu a chydraddoldeb ysgolion unigol.</p>
<p>Adolygu ein proses gymhwysu a chymeradwyo dysgu a datblygu er mwyn sicrhau mynediad cyson a theg</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Bydd gwelliannau i'r Fewnrwyd newydd yn caniatáu i ymgeiswyr cyflogedig gwblhau a chyflwyno ceisiadau hyfforddi ar-lein. Bydd y broses yn digidoli prosesu ceisiadau, o'r cais cychwynnol i gymeradwyaeth y Rheolwr, neu'r rhesymau dros wrthod. Bydd y camau prosesu ceisiadau yn caniatáu i'r Tîm Dysgu a Datblygu fonitro llif gwybodaeth, gan ganiatáu i'r sefydliad fonitro unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

		Bydd hyn yn cynnwys y ceisiadau hynny am hyfforddiant a wrthodwyd. Cymeradwyodd y Prosiectau Trawsnewid Digidol [Blaenoriaeth 2018-19] y gwelliannau i'r broses ymgeisio a fydd yn galluogi'r sefydliad i adrodd yn llawn ar geisiadau hyfforddi erbyn Mawrth 2019.
Cynnal archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol i nodi a deall ein bylchau cyflog gwirioneddol a/neu anghysondebau cyflog a datblygu camau i'w gwella	Cwblhawyd Awdit ar waith	Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ac yn cyhoeddi Archwiliad Cyflog Cyfartal, yn ymchwilio i unrhyw fylchau cyflog a/neu anghysondebau ac yn datblygu camau i'w gwella.
Cymhwyso'r Dadansoddiad Rhywedd, Cyflogaeth a Chyflog (GEPA) i'n gwybodaeth am y gweithlu a'r data cyflogau er mwyn nodi unrhyw wahaniaethau cyflogaeth posibl a datblygu camau i'w gwella	Cwblhawyd	Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn defnyddio'r dull GEPA i ddadansoddi gwybodaeth am y gweithlu a'r data cyflogau er mwyn llywio adroddiad gwybodaeth blynyddol y gweithlu ac adroddiadau data rheoli pobl corfforaethol ac adrannol y gweithlu i lywio tueddiadau a meysydd y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt. Mae hyn i gefnogi'r gwaith o gynllunio gweithlu corfforaethol ac adrannol a datblygu hyn.
Defnyddio gwybodaeth ein gweithlu i lywio olyniaeth a'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a datblygu amcanion busnes sydd o gymorth i wella cydraddoldeb	Cwblhawyd	Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn defnyddio'r wybodaeth am y gweithlu sydd yn adroddiad gwybodaeth blynyddol y gweithlu ac adroddiadau rheoli pobl corfforaethol ac adrannol i gefnogi proses cynllunio gweithlu adrannol.
Parhau i gynghori a chefnogi unedau busnes yn ystod y broses o ad-drefnu'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr effaith ar y gweithlu yn cael ei hasesu'n briodol	Ar waith	Mae'r timau Gwasanaethau Pobl a Chydraddoldeb yn parhau i gynghori a chefnogi rheolwyr gwasanaeth yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol yn unol â'r polisi Ailstrwythuro gan gynnwys cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

<p>Defnyddio adborth gan achrediadau allanol megis Buddsoddwyr mewn Pobl i lywio blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Mae adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) yn mynd rhagddo, a disgwylir adroddiad ym mis Mehefin 2018. Caiff canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd Strategaeth Pobl i integreiddio gweithredoedd i flaenoriaethau'r ffrydiau gwaith (arwain, cefnogi, ymgysylltu).</p>
<p>Cynnal awdit o Sgiliau Iaith ein staff</p>	<p>Proses barhaus</p>	<p>Mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2016 a hynny ar adeg amserol iawn oherwydd cyflwyno'r Safonau Iaith Gymraeg ar 30 Mawrth 2016. Un o gamau gweithredu'r Strategaeth oedd diweddarau awdit iaith y gweithlu ac mae'n cyd-daro gyda Safon 127 sy'n gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor 'i asesu sgiliau iaith Gymraeg eich gweithwyr'. Wrth i staff ddilyn hyfforddiant a symud ar hyd y continwwm, mae'r cofnod yn cael ei ddiweddarau a phan fyddwn yn penodi, rhoddir y cofnodion unigol ar ein meddalwedd Adnoddau Dynol. Mae rhagor o fanylion am yr awdit i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg 2017-18, ar ein gwefan gorfforaethol.</p>
<p>Gwerthuso ac adolygu ein hamcanion cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn cefnogi gwelliant parhaus ac adrodd yn flynyddol</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Mae'r adroddiad blynyddol yn gyfle i werthuso ac adolygu ein gwaith wrth gyrraedd ein Amcanion. Mae angen trafodaeth bellach yn ystod 2018-19 i sicrhau bod yr adroddiadau blynyddol ar gyfer yr Amcanion Lles a'r Amcanion Cydraddoldeb yn cefnogi / cyd-fynd â'i gilydd, er mwyn adlewyrchu'r gwaith cydraddoldeb ehangach.</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

<p>Ein rôl fel darparwr gwasanaeth: Rydym yn darparu tua 300 o wahanol wasanaethau i bobl leol, ac mae'r rhain mor amrywiol â darparu'r gwasanaeth addysg lleol, casglu sbwriel, gofalu am bobl hŷn neu blant sy'n agored i niwed, darparu cyfleusterau hamdden, cynnal a chadw priffyrdd ac rydym yn landlord i 9000 o gartrefi cyngor. Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r ymrwymadau sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn.</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn parhau i weithio i ddileu'r rhwystrau i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor ac yn rhoi sylw dyledus i bob grŵp wrth wneud penderfyniadau</p>		
Cam Gweithredu:	Statws	Statws a diweddariad
Parhau i wneud gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn fwy hygyrch	Cwblhawyd	Mae'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn arwain y gwaith o wneud y wefan yn fwy hygyrch, sy'n cynnwys datblygu a monitro Browse Aloud. Fel rheol defnyddir dogfennau uniaith bellach. Addaswyd system Modern.gov fel bod modd gweld y tudalennau ar ffurf HTML yn awr.
Parhau i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys trwy ddarpariaeth ar-lein	Ar waith	Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth ar-lein yn parhau a chaiff ei fonitro fel rhan o set Data Partner Busnes Adnoddau Dynol.
Annog adborth gan y cyhoedd ar faterion yn ymwneud â hygyrchedd	Ar waith	Mae Hyrwyddwr Anabledd y Bwrdd Gweithredol wedi sefydlu Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, sy'n cwrdd yn rheolaidd ag aelodau'r Gynghrair Anabledd. Mae'r aelodau wedi paratoi cynllun gweithredu treigl, sy'n nodi meysydd allweddol megis gwybodaeth hygyrch, parcio a datganiadau dylunio a mynediad.
Parhau i wneud yn siŵr bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu sefydlu yn y broses o wneud penderfyniadau ac fel rhan o'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Ar waith	Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi bod yn arwain y gwaith o baratoi Asesiad Integredig. Mae hyn oherwydd y ffaith ei bod yn ofynnol

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

		yn statudol i'r Cyngor gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ddeddfwriaethau newydd a phresennol.
Cefnogi'r broses o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy ddatblygu cyfres o broffiliau cymunedol, sy'n dangos ffeithiau allweddol ar gyfer grwpiau demograffig penodol	Cwblhawyd	Paratowyd proffiliau'r wardiau a chânt eu diweddarau'n rheolaidd yng ngoleuni unrhyw ddata newydd / gwybodaeth leol. Maent ar gael ar y wefan gorfforaethol ac maent wedi'u darparu i'r holl Aelodau Etholedig.
Monitro cwynion sy'n ymwneud â chydraddoldeb fel modd o sbarduno gwelliannau i wasanaethau	Ar waith	Caiff yr holl gŵynion eu cofnodi a'u monitro trwy system rheoli gwybodaeth, sy'n cynnwys categori i fonitro unrhyw gŵynion yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.
Sicrhau bod yr holl drefniadau contractio (gan gynnwys adolygu) yn cynnwys amodau priodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	Ar waith	Mae'r Uned Gaffael yn diweddarau'r wybodaeth yn rheolaidd a chaiff ei chynnwys ym mhob gwybodaeth gontractio
Cefnogi dulliau ymgysylltu allweddol, gan gynnwys Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, y Gynghrair Anabledd, y Fforwm 50+ a'r Cyngor Ieuenctid	Ar waith	Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth / y Tîm Datblygu Strategol yn parhau i gefnogi'r dulliau ymgysylltu allweddol hyn.

<p>Ein rôl fel darparwr gwasanaeth: Rydym yn darparu tua 300 o wahanol wasanaethau i bobl leol, ac mae'r rhain mor amrywiol â darparu'r gwasanaeth addysg lleol, casglu sbwriel, gofalu am bobl hŷn neu blant sy'n agored i niwed, darparu cyfleusterau hamdden, cynnal a chadw priffyrdd ac rydym yn landlord i 9000 o gartrefi cyngor. Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r ymrwymadau sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn.</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Helpu i wneud y mwyaf o botensial pobl, trwy'r system addysg a thrwy gefnogi twf yr economi leol</p>		
Cam Gweithredu	Statws	Statws a diweddariad
<p>Datblygu economi wybodaeth ac arloesedd trwy'r Prosiect Gweithffyrdd+ a nodwyd yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau'r Sir Gyfan i wella cyflogadwyedd Pobl Economaidd Anweithgar a Phobl Ddi-waith Tymor Hir sy'n 25 oed a hŷn ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth o ran cyflogaeth</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Mae'r prosiect Gweithffyrdd+ yn ymgysylltu â chyfranogwyr sydd naill ai'n ddi-waith yn y tymor hir neu'n economaidd anweithgar. Mae'r prosiect yn cefnogi cyfranogwyr trwy ddarparu mentora, chwilio am swydd wedi'i deilwra, lleoliadau gwirfoddol, cymwysterau a chyllid ar gyfer swyddi â chymhorthdal.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi cydweithio drwy Adolygiad Gorchwyl a Gorffen i gefnogi 'Cau'r Bwlch Cyrhaeddiad ar gyfer Dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.' Rhoddodd y gwaith helaeth hwn fod i ddogfen ddefnyddiol ac ymarferol i'w defnyddio fel adnodd gwerthfawr yn ein holl ysgolion. Mae ei negeseuon allweddol yn cynnwys:</p> <p>Mae ysgolion Sir Gâr yn rhoi llawer o bwyslais ar godi safonau a chyflawniad ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy amrywiaeth o ymyriadau cynnar a gwell cyfleoedd cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau profiadau cyfoethog a gwell canlyniadau.</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

		<p>Mae ein hysgolion yn gallu dangos tystiolaeth o nifer o elfennau o 'fentrau arfer da' (fel y cyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen) sy'n effeithiol o ran lleihau effaith tloedi ar ymgysylltu a photensial dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.</p> <p>Mae'r dadansoddiadau a wnaed o ddata perfformiad dros amser yn dangos bod y safonau'n parhau i godi ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn achos dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.</p> <p>Mae arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion a gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn modd cynaliadwy.</p>
<p>Byddwn yn cyflwyno cyrsiau llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r sir</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Cynigiwyd rhaglen lawn a pharhaus o ddsbarthiadau llythrennedd, rhifedd ac ESOL mewn canolfannau yn Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin ac mae cofrestru yn y dosbarthiadau hyn wedi bod yn dda.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd ag ERW, i wella deilliannau disgyblion ymhellach ond gyda phwyslais penodol ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Gwnaethom barhau i ddal yr holl ysgolion ac ERW i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth mewn ysgolion lle nad yw perfformiad yn foddhaol. Cynhaliwyd Ymweliadau Craidd gennym ar gyfer gwerthuso canlyniadau perfformiad ysgol a chynnal Categori Cenedlaethol ac adolygu'r ddarpariaeth Dysgu ac Addysgu. Mae Panel Craffu yr Awdurdod Lleol wedi parhau â'i waith gwerthfawr drwy wahodd ystod o ysgolion ar draws yr holl Gyfnodau i</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

		<p>gyflwyno trosolwg ar eu cynnydd, eu llwyddiant a'r meysydd sy'n peri pryder iddynt i'r Panel. Mae'r gwaith parhaus o fonitro a chraffu ar ein 'Hysgolion sy'n Destun Pryder' wedi parhau i gael ei herio a'i gefnogi.</p>
<p>Byddwn yn datblygu'r rhaglen ymgysylltu â'r teulu ymhellach i gynorthwyo teuluoedd i ymgymryd ag addysg</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Roedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i ddarparu amrywiaeth o raglenni ar gyfer teuluoedd, gan ymgysylltu'n benodol â theuluoedd agored i niwed, oedd yn anoddach eu cyrraedd. Mae'r Llofnod Dysgu fel Teulu yn parhau i gael cymorth drwy rai ysgolion yn Llanelli, gyda theuluoedd yn ymwneud ag addysg eu plentyn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan deuluoedd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy abl i gefnogi presenoldeb eu plentyn.</p>

<p>Ein rôl fel arweinydd cymunedol: Rydym am hybu goddefgarwch a dealltwriaeth a helpu i adeiladu cymuned gydlynus ac unedig yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y'u nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn drwy weithio gyda phartneriaid a chyrrff cymunedol ledled y sir</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Cefnogi cymunedau cydlynus trwy hyrwyddo cysylltiadau cymunedol a dinesig</p>		
Cam Gweithredu	Statws	Statws a diweddariad
<p>Cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Mae'r Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn rhan o'r Grŵp Thematig Cymunedau Teg a Diogel. Cyflwynodd y Cydgysylltydd sylwadau ysgrifenedig i Weithdy Cymunedau Teg a Diogel. Mae'r Cydgysylltydd hefyd yn rhan o bartneriaethau diogelwch cymunedol a grwpiau cydraddoldeb strategol ar draws Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Cyfrannodd y Cydgysylltydd adran ar gydlyniant cymunedol i Gynllun Busnes yr Is-adran.</p>
<p>Cynnal a chefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth am Drosedd Casineb a chyfeirio dioddefwyr at wasanaethau adrodd a chymorth.</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn aelodau o Fforwm Troseddau Casineb Dyfed-Powys, a hwylusir gan Heddlu Dyfed-Powys. Yn ystod yr wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb canolbwyntiodd y fforwm ar godi ymwybyddiaeth o fewn ein cymunedau o'r hyn ydyw Trosedd neu Ddigwyddiad Casineb a hefyd sut y gellir adrodd am drosedd neu ddigwyddiad o'r fath.</p>
<p>Cyflawni'r Rhaglen Adsefydlu Syriaid. Cefnogi cymunedau trwy gyfnodau o newid oherwydd mewnfudo.</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Bu'r Cydgysylltydd yn bresennol yng nghyfarfodydd Grwpiau Gorchwyl Ffoaduriaid o Syria yn Sir Gaerfyrddin, Powys a Cheredigion a'r Panel yn Sir Benfro gan gyfrannu</p>

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

		<p>atynt. Cynrychiolodd y Cydgysylltydd y rhanbarth yn un o gyfarfodydd Grŵp Cyflawni Awdurdod Lleol - Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Cynhyrchwyd taflenni gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr a ffoaduriaid yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer y Rhaglen Ffoaduriaid o Syria.</p>
--	--	---

Atodiad 1: Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2018-19

<p>Ein rôl fel arweinydd cymunedol: Rydym am hybu goddefgarwch a dealltwriaeth a helpu i adeiladu cymuned gydlynus ac unedig yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y'u nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn drwy weithio gyda phartneriaid a chyrrff cymunedol ledled y sir</p>		
<p>Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn annog ffyrdd iach o fyw ac yn hyrwyddo pwysigrwydd llesiant</p>		
Cam Gweithredu	Statws	Statws a diweddariad
<p>Hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau y cydymffurfir â'r 'Cynnig Gweithredol' ledled yr holl feysydd gwasanaeth</p> <p>(Cynnig Gweithredol - Rhaid i ddarparwyr gofal gynnog a darparu gwasanaethau gofal Cymraeg i'r un safon â gwasanaethau gofal Saesneg fel rhan o'r Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau)</p>	Ar waith	Fel rhan o ymarfer Corfforaethol sy'n edrych ar archwiliad sgiliau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, rydym yn hyderus bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gwasanaeth yn y Gymraeg os oes ei angen arnynt ond bod peth gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â'r cynnig gweithredol.
<p>Gweithredu camau gweithredu o fewn y Cynllun Dementia Rhanbarthol yn unol â chanfyddiadau adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn "Mwy na dim ond colli'r cof"</p>	Ar waith	Mae'r grŵp dementia rhanbarthol yn parhau i gwrdd a byddant yn arwain ar gynllun rhanbarthol dementia.
<p>Cyfrannu at raglenni trawsnewid iechyd ym maes iechyd meddwl ac ailgynllunio gwasanaethau ym maes anabledau dysgu</p>	Ar waith	Mae'r swyddogion yn ymwneud â'r amrywiol ffrydiau gwaith a grëwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer y rhaglen waith hon.
<p>Cyflawni'r cynllun tai fforddiadwy</p>	Ar waith	Rydym yn gweithio ar ystod o atebion gan gynnwys dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, gosod tai cymdeithasol, prynu tai o'r sector preifat, trwy gyfraniadau datblygwyr ac Adran 106 a thrwy weithio mewn partneriaeth â'n partneriaid yn y cymdeithasau tai i ddatblygu tai newydd.